Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Trelogan
# Berthengam
# Treffynnon
# Sir y Fflint
# CH8 9BN

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD / THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD / GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

INVESTORS IN PEOPLE | Gold

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/09/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Sirol Trelogan ym mhentref Berthengam ger Treffynnon yn Sir y Fflint. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o'r pentref neu'r ardal wledig gyfagos. Mae disgyblion yn ymestyn dros yr ystod gallu llawn ac mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal y mae'n ei gwasanaethu fel ardal nad yw'n ffyniannus na than anfantais yn economaidd chwaith.

Yn ystod yr arolygiad, roedd 68 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr. Daw pob un o'r disgyblion o gartrefi Saesneg. Ar hyn o bryd, mae gan 24% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol ac ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 21% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n agos at y cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol.

Penodwyd y pennaeth yn Ebrill 2004. Yn ogystal â'r pennaeth, mae dau athro amser llawn ac un athro rhan-amser. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2007.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Trelogan yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,571 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir y Fflint yw £13,748 a'r isafswm yw £2,758. Mae Ysgol Gynradd Trelogan yn y 19eg safle o'r 73 o ysgolion cynradd yn Sir y Fflint o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- mae lefelau presenoldeb yn uchel, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda iawn ac mae ganddynt agwedd dda tuag at ddysgu;
- mae profiadau dysgu diddorol ac addysgu o ansawdd da yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi eu cymell yn dda ac yn ymddiddori;
- mae lefel uchel y gofal a'r berthynas waith dda rhwng y staff a'r disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar les a safonau disgyblion; ac
- mae'r ysgol yn gymuned barchus, hapus a chynhwysol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol;
- mae pob aelod o staff yn gweithio'n dda fel tîm ac maent yn cael eu cynnwys yn llawn mewn gweithgareddau gwella'r ysgol;
- mae gan yr ysgol wybodaeth dda am ei chryfderau a'i gwendidau; ac
- mae trefniadau partneriaeth cadarnhaol yn cyfrannu'n dda at safonau a lles disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion ar draws y cwricwlwm yn gyson trwy’r ysgol

A2 Sicrhau bod profiadau dysgu yn rhoi cyfleoedd gwell i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella lefel yr her a ddarperir gan y corff llywodraethol

A4 Ymestyn cyfleoedd i athrawon gymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol a rhannu arfer dda y tu hwnt i’r ardal leol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiad gwaelodlin disgyblion wrth iddynt gychwyn yn y dosbarth derbyn yn dangos bod llawer ohonynt yn meddu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau sy'n cyd-fynd â'r lefel gyfartalog ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol a disgyblion sy'n fwy abl, yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw i gof eu dysgu blaenorol yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda ac yn parchu safbwyntiau pobl eraill. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn hyderus mewn ystod eang o sefyllfaoedd â staff, ymwelwyr a gyda'i gilydd. Gallant ddal ati i ganolbwyntio am gyfnodau priodol mewn gwersi.

Mae safonau darllen yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn trin llyfrau'n dda ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddarllen. Mae ganddynt wybodaeth dda am seiniau llythrennau a defnyddiant ystod addas o strategaethau i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn dda. Dangosant ddiddordeb yn y llyfrau y maent yn eu darllen, ac mae llawer ohonynt yn darllen gyda rhugldér, cywirdeb a dealltwriaeth gynyddol. Maent yn galw i gof eu hoff storïau yn dda. Mae'r rhai mwy abl yn ymwybodol o wahanol fathau o lyfrau, gan gynnwys rhai ffuglen a ffeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddarllen. Mae llawer ohonynt yn darllen ystod eang o destunau gyda rhugldér, cywirdeb a mynegiant da. Maent yn siarad yn rhwydd am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi, a gallant esbonio pam y maent yn mwynhau darllen llyfrau gan yr awdur hwnnw. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gymeriadau a llinellau stori. Maent yn cymhwyso'u medrau darllen yn dda mewn gwahanol bynciau, a gallant ddod o hyd i gyfeirlyfrau, a'u defnyddio, yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 6, gall llawer ohonynt frasddarllen darn i gael ei ystyr a chasglu gwybodaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da o ran eu medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n llwyddiannus at ystod o ddibenion, mewn brawddegau llawn gydag atalnodi priodol. Fodd bynnag, prin yw'r disgyblion sy'n ysgrifennu'n annibynnol yn estynedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn ysgrifennu'n dda i ymateb i dasgau iaith penodol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod addas o strwythurau brawddeg a geirfa ddiddorol. Fodd bynnag, prin yw'r rhai sy'n cynhyrchu darnau o ysgrifennu estynedig yn eu gwaith mewn pynciau eraill. Ym Mlynyddoedd 5 a 6, mae llawer o ddisgyblion yn atgyfnerthu ac yn ymestyn eu medrau ysgrifennu'n dda ar draws y cwricwlwm. Maent yn ysgrifennu'n hyderus ac yn gywir mewn amrywiaeth o ffurfiau ac mae eu hysgrifennu yn aml yn ystyriol a dychmygus.

Mae safonau mewn Cymraeg yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ac mae eu hatalnodi'n dda. Maent yn darllen gyda hyder a dealltwriaeth sy'n datblygu. Maent yn ysgrifennu brawddegau syml yn gywir ac yn mwynhau canu caneuon Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n llwyddiannus ar y dechrau da hwn. Mae llawer ohonynt yn gwneud defnydd da o'u medrau dwyieithog sy'n datblygu i gefnogi eu dysgu mewn gwersi eraill. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen ac yn ysgrifennu'n hyderus yn Gymraeg. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn ymateb yn dda i amrywiaeth o destunau addas ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r prif syniadau, digwyddiadau a chymeriadau. Maent yn ysgrifennu brawddegau cysylltiedig gan ddefnyddio geirfa addas, gan amrywio eu patrymau a dangos amgyffrediad da o drefn a dilyniant.

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn sy'n gallu cael effaith arwyddocaol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol o gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r llall.

Roedd canran y disgyblion saith oed a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu'n uwch yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012 islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. O gymharu ag ysgolion lle mae gan gyfrannau tebyg o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol o ran y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu'n uwch yn golygu ei bod yn y 50% is. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant uwch (deilliant 6) neu'n uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion yn y teulu. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf o ran data'r Cyfnod Sylfaen, nid oes unrhyw ddata ar dueddiadau ar gael.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion 11 oed sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos tuedd o welliant. Yn ystod y cyfnod hwn, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn anghyson. Mae'n aml wedi bod yn is na chyfartaleddau ar gyfer ysgolion yn y teulu a Chymru. O gymharu ag ysgolion lle mae gan gyfrannau tebyg o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol mewn Saesneg yn golygu ei bod yn y 50% uchaf mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol mewn mathemateg wedi golygu ei bod yn y 25% isaf am y pedair blynedd diwethaf. Roedd perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth yn golygu ei bod yn y 50% is mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch (lefel 5) mewn Saesneg a gwyddoniaeth wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion a Chymru mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Prin yw'r disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch mewn mathemateg yn ystod y cyfnod hwn.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn hapus a hyderus y bydd staff yn trin unrhyw bryderon o ddifrif ac yn gweithredu yn unol â nhw yn gyflym ac yn deg. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at fyw yn iach, gan gynnwys bwyta diet iach, ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd ffordd iach o fyw.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd yn eu gwersi ac mewn gweithgareddau. Maent yn gweithio'n dda o dan gyfarwyddyd oedolion. Caiff disgyblion ddealltwriaeth addas o'u cryfderau a'u gwendidau trwy gymryd rhan yn gynyddol mewn asesu, cytuno ar feini prawf llwyddo a gosod targedau personol.

Mae disgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oedran yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus amser egwyl ac amser cinio. Dangosant barch, cwrteisi ac ystyriaeth at ei gilydd ac at oedolion. Mae disgyblion hŷn yn fodelau rôl cadarnhaol iawn yn y ffordd y maent yn rhyngweithio gyda'r disgyblion iau.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n gyson dros y pum mlynedd diwethaf ac wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae'r cyngor ysgol wedi hen ennill ei blwyf. Mae aelodau'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at wneud penderfyniadau yn yr ysgol. Maent yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn teimlo bod staff yn gwerthfawrogi eu barn.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda tuag at weithgareddau yn y gymuned. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu datblygiad fel unigolion cyflawn a chyfrifol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae athrawon yn darparu ystod dda o brofiadau diddorol a pherthnasol ar gyfer disgyblion yn yr ysgol a'r tu allan iddi, sy'n cwmpasu gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae athrawon yn y Cyfnod Sylfaen yn cynllunio ystod dda o weithgareddau dysgu ffocysedig, ond nid yw'r cynllunio ar gyfer profiadau dysgu gwell a pharhaus yn bodloni anghenion pob disgybl bob amser. Mae athrawon yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd arbennig o dda o'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored. Mae profiadau dysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n llwyddiannus ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion.

Mae cynllunio tymor byr athrawon yn nodi cyfleoedd yn glir ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau. Fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm bob amser yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu a rhifedd yn gyson ac yn gynyddol ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae cynllunio ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn arbennig o dda.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn dda. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn dda iawn. Mae staff yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac yn integreiddio'r iaith yn llwyddiannus mewn ystod o weithgareddau dysgu mewn pynciau eraill. Mae hyn yn hyrwyddo defnydd disgyblion o'r iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ailgylchu ac arbed ynni yn effeithiol. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i bob disgybl ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach, er enghraifft trwy eu hastudiaeth ddiweddar o Bapwa Gini Newydd.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon ac oedolion eraill wedi datblygu perthynas waith gadarnhaol gyda disgyblion sy'n meithrin dysgu yn effeithiol. Mae athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol dda. Mae oedolion ychwanegol yn cyfrannu'n llwyddiannus at gefnogi disgyblion llai abl.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn cynllunio a pharatoi gweithgareddau sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol. Defnyddiant ystod addas o ddulliau addysgu'n llwyddiannus, sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael eu cymell ac yn ymddiddori yn eu dysgu. Mae cyflwyniadau'r athrawon yn frwdfrydig, ac mae holi medrus yn ymestyn dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Yn y nifer fach o wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r dysgu'n symud yn gyflym ac nid yw tasgau bob amser yn herio disgyblion ddigon, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae athrawon yn defnyddio ffurfiau asesu priodol sy'n rhoi tystiolaeth glir iddynt o'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Maent yn rhoi adborth llafar da i ddisgyblion yn ystod gwersi. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn drylwyr. Mae sylwadau'n gefnogol ac yn yr enghreifftiau gorau, maent yn helpu disgyblion i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Caiff disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 eu cynnwys yn gynyddol mewn asesu eu gwaith eu hunain a nodi targedau ar gyfer gwella.

Mae cofnodion o gynnydd disgyblion unigol yn glir ac mae athrawon yn eu defnyddio'n dda i nodi'r angen am gymorth ychwanegol. Mae athrawon wedi gweithio'n llwyddiannus gyda staff o ysgolion lleol eraill i gryfhau eu dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad. Mae ansawdd adroddiadau i rieni ar gynnydd eu plentyn yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae lefel uchel y gofal a'r berthynas waith dda rhwng staff a disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar les a safonau disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar addysgu disgyblion ynghylch gwerthoedd ac mae hyn yn datblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol. Mae gweithredoedd o addoli ar y cyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ystod eang o asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth i roi arweiniad a chymorth defnyddiol i staff, disgyblion a rhieni, pan fydd angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae systemau effeithiol ar waith i nodi anghenion dysgu yn gyflym. Mae athrawon yn darparu ystod addas o raglenni ymyrraeth trwy gynlluniau addysg unigol. Mae athrawon yn adolygu cynnydd disgyblion yn rheolaidd, ac mae trefniadau priodol ar waith i hysbysu rhieni a'u cynnwys.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol yn yr ysgol, lle caiff pob plentyn ei werthfawrogi'n llawn. Mae'n gymuned hapus gydag awyrgylch teuluol lle caiff pob disgybl wneud defnydd cyfartal o'r ddarpariaeth. Mae staff yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o ofal, cynhwysiant a pherthyn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Maent yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddangos parch ac ystyriaeth at blant a phobl eraill yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Mae amgylchedd yr ysgol yn ddiogel, yn saff ac yn groesawgar. Mae'r adeilad yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr ac yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol a gynhelir yn dda sy'n cefnogi addysgu a dysgu yn effeithiol. Mae ystafelloedd dosbarth yn cynnwys offer da ac adnoddau o ansawdd da sy'n gweddu'n dda i anghenion disgyblion, ond mae anawsterau technegol yn cyfyngu ar ddefnydd disgyblion o'r rhyngrwyd. Mae offer eithriadol dda ar y tir helaeth, ac mae hyn yn adnodd dysgu gwerthfawr ar gyfer disgyblion. Mae'r tir yn cynnwys cae chwarae mawr iawn, cae pob tywydd ag arwyneb newydd, maes chwarae antur helaeth ac ardal goedwig a gardd helyg.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'rrheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol a chyfeiriad strategol ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol. Mae pob aelod o staff yn gweithio'n agos fel tîm ac maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r modd y maent yn cyfrannu at nodau'r ysgol. Ceir ymrwymiad ar y cyd i wella safonau a darparu amgylchedd dysgu hapus, gofalgar a diogel ar gyfer pob un o'r disgyblion.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n briodol ar safonau cyflawniad a chynnydd disgyblion unigol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o'r modd y mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae ganddynt wybodaeth dda am gryfderau'r ysgol, ei blaenoriaethau ar gyfer datblygu a chyllid yr ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt yn herio'r ysgol yn ddigonol ynglŷn â'r safonau y mae'n eu cyflawni.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel asesu ar gyfer dysgu a datblygu strategaethau llythrennedd, yn ogystal â hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae strategaeth gadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n manteisio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys data ar berfformiad disgyblion, deilliannau arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r pennaeth yn gofyn am safbwyntiau disgyblion a rheini yn rheolaidd i fesur cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl a chynhwysfawr ac mae pob aelod o staff yn cyfrannu ato. Mae'n rhoi asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i bennu blaenoriaethau clir a ffocysedig yn y cynllun gwella ysgol. Mae rhoi'r cynllun hwn ar waith yn cael effaith gadarnhaol ar wella safonau. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau monitro yn galluogi llywodraethwyr i arfarnu cynnydd y camau yn y cynllun gwella ysgol yn ddigon da.

Mae'r ysgol yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu. Mae athrawon wedi gweithio'n agos gyda staff o ysgolion lleol eraill i roi ar waith nifer o fentrau sy'n cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i staff gymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol a rhannu arfer dda y tu hwnt i'r ardal leol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod addas o bartneriaid. Ceir partneriaeth gref gyda rhieni. Cânt eu hysbysu'n dda ac maent yn teimlo bod croeso da iddynt yn yr ysgol. Mae cysylltiadau cymunedol da yn bodoli gyda llawer o sefydliadau, cymdeithasau, eglwys ac elusennau lleol a chenedlaethol hefyd, sy'n dylanwadu'n dda ar ansawdd profiadau disgyblion.

Mae'r cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r lleoliad cyn-ysgol ar y safle yn sicrhau trosglwyddo didrafferth i'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion. Mae cynlluniau pontio effeithiol yn helpu disgyblion i symud yn hyderus i'r ysgol uwchradd. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'i chlwstwr o ysgolion ac yn rhannu profiadau gwerthfawr i ddatblygu blaenoriaethau lleol, fel datblygu mentrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r cysylltiadau hyn yn rhoi cyfleoedd cynhyrchiol i staff safoni gwaith mewn llythrennedd, mathemateg a gwyddoniaeth ar draws ysgolion. Mae'r partneriaethau yn cyfrannu'n effeithiol at gyfoethogi'r ddarpariaeth a gwella deilliannau disgyblion. Maent yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion elwa ar brosiectau amrywiol hefyd, fel y prosiect drama llwyddiannus yn ddiweddar.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda. Mae gan athrawon gymwysterau da ac maent yn meddu ar ystod addas o arbenigedd ar draws y cwricwlwm. Mae trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Caiff staff cymorth eu defnyddio'n effeithiol ac fe gânt effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad pob disgybl.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn nodi cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu a hyfforddi pob un o'r staff. Mae hyn wedi cael dylanwad uniongyrchol a chadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol systematig a thrylwyr. Mae hyn yn sicrhau bod gwariant yn cysylltu'n glir â meysydd blaenoriaethol i'w datblygu. Gwna ddefnydd effeithiol ac effeithlon o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn cefnogi dysgu disgyblion. Mae'r ysgol wedi targedu cyllid yn effeithiol o'i chyllideb dros ben dros y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu ei hadeiladau a'i mannau dysgu y tu allan i safon uchel.

Gan fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn sy'n gallu cael effaith sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol o gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r llall.

Roedd canran y disgyblion saith oed a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu'n uwch yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012 islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. O gymharu ag ysgolion lle mae gan gyfrannau tebyg o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol o ran y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu'n uwch yn golygu ei bod yn y 50% is.

Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant uwch (deilliant 6) neu'n uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion yn y teulu. O gymharu ag ysgolion lle mae gan gyfrannau tebyg o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn y 50% is ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Roedd yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol.

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf o ran data'r Cyfnod Sylfaen, nid oes unrhyw ddata ar dueddiadau ar gael.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion 11 oed a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion a Chymru. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r ganran sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos tuedd o wella. Yn ystod y cyfnod hwn, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn anghyson. Mae'n aml wedi bod yn is na chyfartaleddau ar gyfer ysgolion yn y teulu a Chymru.

O gymharu ag ysgolion lle mae gan gyfrannau tebyg o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol mewn Saesneg yn golygu ei bod yn y 50% uwch mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yr ysgol mewn mathemateg wedi golygu ei bod yn y 25% isaf am y pedair blynedd ddiwethaf. Roedd perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth yn golygu ei bod yn y 50% is mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch (lefel 5) mewn Saesneg a gwyddoniaeth wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion a Chymru mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Roedd perfformiad yr ysgol ar y lefel hon yn golygu ei bod yn y 50% uchaf o ysgolion lle mae gan gyfrannau tebyg o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Roedd perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch mewn mathemateg yn golygu ei bod yn y 50% is mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Ni fu unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad bechgyn a merched yn ystod y blynyddoedd diwethaf nac yng nghyflawniad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â disgyblion eraill.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwyd yr holiadur gan ddau ddeg un o rieni neu ofalwyr. Mae eu lefelau boddhad yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

Mae pob un o'r rhieni neu ofalwyr yn credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Dywedant fod eu plentyn yn hoffi'r ysgol ac maent yn hyderus bod eu plentyn yn ddiogel yno. Mae pob un ohonynt yn cytuno y cafodd eu plentyn gymorth i ymgynefino pan ymunodd â'r ysgol. Dywed pob un ohonynt fod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch atynt. Mae pawb a ymatebodd yn cytuno bod yr ysgol yn annog eu plentyn i fwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Dywed pob un ohonynt y byddent yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem. Mae pawb a ymatebodd yn deall beth i'w wneud os ydynt yn dymuno cwyno. Mae pob un ohonynt yn cytuno bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da ac maent yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn. Mae pob un ohonynt yn credu bod ymddygiad yn dda.

Mae pob un o'r rhieni neu ofalwyr yn credu bod yr addysgu'n dda, ac maent yn hapus bod athrawon yn disgwyl i ddisgyblion wneud eu gorau. Mae pob un ohonynt yn credu bod athrawon yn helpu eu plentyn i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb. Dywed pawb a ymatebodd fod plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud i'r ysgol uwchradd. Mae pob un o'r rhieni neu ofalwyr yn cytuno bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. Maent yn hyderus bod eu plentyn yn cael digon o gymorth ychwanegol ar gyfer ei anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cytuno bod ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys gwibdeithiau ac ymweliadau.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwyd yr holiadur gan dri deg dau o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Mae ymatebion i'r holl gwestiynau yn gadarnhaol iawn, ac maent yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Dywed pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn cytuno bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae pob un ohonynt yn cytuno eu bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio neu'n cael eu gwaith yn anodd. Dywed pob un ohonynt fod yr ysgol yn eu helpu i fod yn iach a'i bod yn rhoi digonedd o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff.

Mae pob disgybl yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a bod athrawon a staff cymorth yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae pob un ohonynt yn cytuno bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n effeithiol ac maent yn credu bod gwaith cartref yn eu helpu i wella ar eu gwaith yn yr ysgol. Mae pob un ohonynt yn cytuno bod pob plentyn yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac maent yn credu bod plant yn ymddwyn yn dda yn ystod amser cinio ac amser egwyl.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| James Kerry Jones | Arolygydd Lleyg |
| Rebecca Turner | Arolygydd Cymheiriaid |
| Margaret Madoc Jones | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.